CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y cyfarfod:	**6 Rhagfyr 2022**
Teitl:	**Sylfaen Treth y Cyngor a'r Dyddiadau ar gyfer Talu'r Praeseptau.**
Pwrpas yr adroddiad:	**Pennu Sylfaen Treth y Cyngor a'r Dyddiadau ar gyfer Talu'r Praeseptau ym mlwyddyn ariannol 2023/2024.**
Er:	**Penderfyniad**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyllid a Chaffael**

1. Y GOFYNIAD I BENNU SYLFAEN TRETH Y CYNGOR

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2004, penderfynodd y Cyngor wneud pennu Sylfaen Treth y Cyngor yn swyddogaeth weithredol, ac felly gall y Cabinet bennu Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2023/2024. Mae Sylfaen Dreth unrhyw ardal yn mesur faint o Dreth y Cyngor gall yr ardal honno ei chodi.

Mae'n ofynnol cyfrifo'r Sylfeini canlynol:-

(a) Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion;
(b) Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer pob un o ardaloedd y Cynghorau Tref a Chymuned.

2. CYFRIFO SYLFAEN TRETH Y CYNGOR

Pennir y rheolau ar gyfer cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) a Threth y Cyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) (Diwygio) 2016.

Mae'r rheoliadau'n gosod y fformwlâu ar gyfer cyfrifo Sylfaen y Dreth mewn unrhyw ardal, ac yn pennu pryd y dylid cyflawni'r cyfrifiadau a chyfleu'r canlyniadau i'r awdurdodau praeseptio a'r awdurdodau sydd â phŵer i godi arian. Nodir y fformwlâu a'r cyfrifiadau yn Atodiad 1.

Felly, i raddau helaeth mae'r adroddiad hwn yn un technegol ac mae'n dilyn y rheoliadau a amlinellwyd.

Mae'r cyfrifiadau ar gyfer Sylfaen Treth y Cyngor, sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1, yn adlewyrchu disgownt sero ar gyfer yr holl eiddo yn Nosbarthau Rhagnodedig A, B ac C, gan dybio y bydd y disgownt sero yn dal i fod yn berthnasol ar gyfer ardal gyfan yr Awdurdod yn 2023/24. Gwneir y dybiaeth ynghylch disgownt sero ar sail penderfyniad y Cyngor ar 24 Mawrth 2016 i gyflwyno Premiwm Treth y Cyngor o 25% ar Ail Gartrefi a Chartrefi Gwag Hirdymor o 1 Ebrill 2017 ymlaen (Adrannau 12A(3) a 12B(4) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol fel y cafodd ei mewnosod gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014).

Mae'r ffigurau yn yr atodiadau'n adlewyrchu'r materion canlynol:-

(a) tybiaeth y cesglir 98.75% o'r dreth;
(b) amcangyfrif o'r gostyngiadau y gellid eu hawlio ar sail anabledd;
(c) amcangyfrif o'r disgowntiau y gellid eu hawlio;
(d) amcangyfrif o nifer yr anheddau eithriedig;
(e) amcangyfrif o nifer y dosbarthau rhagnodedig ar anheddau;
(f) tybiaeth y bydd yr holl eiddo sydd ar hyn o bryd heb eu bandio (gan gynnwys amcangyfrif o nifer yr eiddo newydd) yn cael eu prisio yn y bandiau priodol a ragwelir;
(g) tybiaeth nad oes gan y Cyngor unrhyw eiddo y gellid eu hystyried yn anheddau eithriedig Dosbarth O sy'n gyfrifoldeb i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn;
(h) y swm a amcangyfrifir mewn perthynas â'r premiwm o 25% a godir o ran ail gartrefi heb unrhyw gyfyngiad ar fyw ynddynt ac eiddo gwag hirdymor.

3. CASGLIAD YNGHYLCH SYLFAEN TRETH Y CYNGOR

Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24 yw 32,767.99 sy'n gynnydd o 2.2% o'i gymharu â Sylfaen y Dreth ar gyfer 2022/23 a oedd yn 32,063.08. Mae'r ffigurau ar gyfer pob Cyngor Tref a Chymuned yn Atodiad 2.

Mae'r data ynghylch Sylfaen y Dreth a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r ffurflen CT1, yn cynnwys y Sylfaen Dreth at ddibenion cyfrifo Treth y Cyngor ynghyd â'r cyfrifiad 100% ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw (nid yw'r ffigurau a ddefnyddir i gyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw yn cynnwys y Premiwm o 25% sy'n berthnasol i ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor).

O fis Ebrill 2023, daw deddfwriaeth newydd i rym sef Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022 sy'n codi'r trothwy y mae'n rhaid i Eiddo Hunanddarpar ei gyrraedd er mwyn dod o dan yr Ardrethi Busnes (mae nifer y dyddiau y cafodd yr eiddo ei osod mewn gwirionedd yn codi o 70 i 182 ac mae nifer y dyddiau y mae'n rhaid rhoi'r llety ar gael i'w osod yn codi o isafswm o 140 i isafswm o 252). Ar hyn o bryd nid yw'n glir beth fydd effaith y ddeddfwriaeth newydd hon, oherwydd gallai rhai eiddo newid nôl i dalu Treth y Cyngor yn lle Ardrethi Busnes ac yna byddant yn gorfod talu'r Premiwm ar Dreth y Cyngor.

4. TALU'R PRAESEPTAU A RHAGLEN ARFAETHEDIG Y RHANDALIADAU

Mae darpariaethau Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Praeseptau) (Cymru) 1995 yn berthnasol o ran y praeseptau y mae Cyngor Sir Ceredigion yn eu talu. Yn unol â darpariaethau'r rheoliadau uchod, mae'n ofynnol bod y Cyngor yn gwneud y canlynol:-

(a) hysbysu pob awdurdod praeseptio perthnasol ynghylch rhaglen arfaethedig y rhandaliadau cyn 31 Rhagfyr;
(b) pennu rhaglen y rhandaliadau dim cynt na 21 o ddiwrnodau ar ôl hysbysu pob awdurdod praeseptio ynghylch rhaglen y rhandaliadau arfaethedig; a
(c) hysbysu pob awdurdod praeseptio perthnasol ynghylch rhaglen y rhandaliadau cyn 1 Chwefror.

Er mwyn cydymffurfio â 3(a) uchod, argymhellir y rhaglen arfaethedig ganlynol ar gyfer y rhandaliadau:-

i) Awdurdod Heddlu Dyfed Powys – 12 rhandaliad cyfartal, i'w talu ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis, gan ddechrau ym mis Ebrill 2023.
ii) Cynghorau Tref a Chymuned – 3 rhandaliad cyfartal, ar ddiwrnod gwaith olaf mis Ebrill, Gorffennaf a Hydref.

	A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam	Naddo. Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at newid polisi na gwasanaeth.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	***Crynodeb***:	Amherthnasol
	Hirdymor:	Amherthnasol
	Cydweithio:	Amherthnasol
	Cynnwys:	Amherthnasol
	Atal:	Amherthnasol
	Integreiddio:	Amherthnasol

Argymhelliad / Argymhellion:

1. Cymeradwyo mai Sylfaen Treth y Cyngor at ddibenion pennu Treth y Cyngor yw 32,767.99 yn unol â'r cyfrifiadau a nodir yn Atodiad 1.
2. Nodi mai Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw yw 32,609.46.
3. Cymeradwyo mai rhaglen y rhandaliadau ar gyfer taliadau praesept Awdurdod Heddlu Dyfed Powys ar gyfer 2023/24 fydd – 12 rhandaliad cyfartal i'w talu ar ddiwrnod gwaith olaf bob mis gan ddechrau ym mis Ebrill 2023.
4. Cymeradwyo mai rhaglen y rhandaliadau ar gyfer taliadau praesept Cynghorau Tref a Chymuned Ceredigion ar gyfer 2023/24 fydd – 3 rhandaliad cyfartal ar ddiwrnod gwaith olaf mis Ebrill 2023, mis Gorffennaf 2023 a mis Hydref 2023.

Y rheswm dros y penderfyniad:	Mae'n ofyniad cyfreithiol i gydymffurfio â'r rheoliadau ynghylch Sylfaen y Dreth.
Trosolwg a Chraffu:	Amherthnasol
Fframwaith Polisi:	Y Broses Flynyddol ar gyfer Pennu'r Gyllideb
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Mae hyn yn sail i'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Mae'n rhan o broses pennu'r Gyllideb a Threth y Cyngor ar gyfer 2023/24
Goblygiadau Cyfreithiol:	Mae'n rhaid cadarnhau'r ffigurau erbyn 6 Ionawr 2023
Goblygiadau Staffio:	Dim
Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:	Dim
Risgiau:	Dim
Pwerau Statudol:	Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Papurau Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael
Swyddogion Adrodd:	Rhodri Morris – Rheolwr Trethi Lleol Duncan Hall – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael
Dyddiad:	16 Tachwedd 2022

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

CYFRIFO SYLFAEN TRETH Y CYNGOR 2023/2024

Caiff **SYLFAEN Y DRETH** ei chyfrifo gan ddefnyddio'r fformwla ganlynol: **T=(A x B)**

Y MAE:	**T = SYLFAEN Y DRETH**	(Y mesur ar gyfer gallu'r ardal i godi treth)
	A= SYMIAU PERTHNASOL	(Cyfanswm y symiau perthnasol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio fformwla benodol - gweler isod)
	B= CYFRADD GASGLU	(Y gyfradd gasglu a awgrymir ar gyfer 2023/2024 yw 98.75%)

Caiff y **SWM PERTHNASOL** ar gyfer pob Band Prisio ei gyfrifo gan ddefnyddio'r fformwla ganlynol: **(H - Q+E +J) x F/G**

Y MAE:	**H = ANHEDDAU TRETHADWY**	(Nifer yr anheddau yn y band sydd wedi'u rhestru yn y rhestr brisio, wedi'u haddasu ar gyfer effeithiau gostyngiad i bobl anabl, AC amcangyfrif y Cyngor o newidiadau i'r rhestr ac anheddau wedi'u heithrio yn 2023/2024)
	Q = FFACTORAU I GYFRIF AM OSTYNGIADAU	(Cyfanred y symiau a geir trwy luosi R gydag S ar gyfer pob gwahanol ganran berthnasol - gweler isod)
	R= NIFER YR ANHEDDAU SY'N DESTUN I'R GOSTYNGIAD PERTHNASOL	(Nifer yr eiddo sydd wedi'u cynnwys yn H yr oedd swm y dreth daladwy ar gyfer y diwrnod perthnasol wedi'i ostwng gan y ganran berthnasol)
	S= CANRAN BERTHNASOL	(Y ganran ragnodedig (ar gyfer Gostyngiad Person Sengl), a chanran y gostyngiad wedi'i bennu gan yr Awdurdod ar gyfer pob un o'r Dosbarthiadau Rhagnodedig)
	E= FFACTOR PREMIWM	(Y ffactor ar gyfer cyfrif am bremiwm. Mae'r cyfrifiad ar gyfer eitem E yn gofyn i awdurdod bilio luosi, ar gyfer pob canran berthnasol, amcangyfrif o nifer yr anheddau y mae premiwm yn berthnasol iddynt gyda'r ganran berthnasol)
	J= SWM YR ADDASIADAU	(Amcangyfrif y Cyngor o addasiadau i'w gwneud i nifer yr anheddau trethadwy yn y rhestr, ynghyd ag unrhyw ostyngiadau neu bremiymau sy'n berthnasol iddynt ar gyfer 2023/2024)

F/G = CYMHAREB I FAND D

BAND	**Cymhareb i Fand D**
A*	5/9
A	6/9
B	7/9
C	8/9
D	9/9
E	11/9
F	13/9
G	15/9
H	18/9
I	21/9

CYMHAREB FESUL DOSBARTH RHAGNODEDIG

DOSBARTH	**A**	**0%**
DOSBARTH	**B**	**0%**
DOSBARTH	**C**	**0%**

PREMIWM - DOSBARTH RHAGNODEDIG B **25%**
PREMIWM - GWAG HIRDYMOR **25%**

SYLFAEN TRETH Y CYNGOR AR GYFER CYNGOR SIR CEREDIGION AR GYFER 2023/2024

BAND	**SYLFAEN Y DRETH**
A*	2.33
A	980.44
B	3,142.49
C	5,808.47
D	6,760.92
E	9,646.50
F	4,783.39
G	1,433.93
H	163.43
I	46.09
CYFANSWM SYLFAEN Y DRETH	**32,767.99**

Y ffigwr ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw yw 100% o Sylfaen y Dreth ac eithrio'r premiymau sef 32,609.46.

CYNGOR SIR CEREDIGION - SYLFAEN TRETH Y CYNGOR FESUL CYNGOR TREF A CHYMUNED AR GYFER 2023/24 **ATODIAD 2**

ARDAL TREF NEU GYMUNED	BAND A*	BAND A	BAND B	BAND C	BAND D	BAND E	BAND F	BAND G	BAND H	BAND I	CYFANSWM SYLFAEN Y DRETH
ABERYSTWYTH 101	-	168.20	709.11	1,093.71	714.22	713.30	489.97	160.05	27.15	2.31	**4,078.02**
ABERAERON 102	-	40.82	80.07	61.68	142.68	201.87	176.51	51.02	5.93	-	**760.58**
ABERTEIFI/CARDIGAN 103	-	96.28	421.67	506.48	365.62	251.95	155.14	43.19	7.90	2.30	**1,850.53**
LLANBEDR P S/LAMPETER 104	-	81.96	155.34	204.74	212.56	190.99	128.02	27.57	2.96	0.01	**1,004.15**
CEI NEWYDD/NEW QUAY 105	-	13.66	55.69	101.82	203.42	229.62	83.44	27.16	8.89	2.30	**726.00**
BORTH 106	-	13.34	116.36	158.43	145.40	226.31	67.76	16.87	-	-	**744.47**
CEULANAMAESMAWR 107	-	9.23	91.59	64.53	66.16	118.88	47.43	30.03	1.98	-	**429.83**
BLAENRHEIDOL 108	-	2.96	30.15	35.99	73.07	41.34	16.05	3.29	-	-	**202.85**
GENAU'R GLYN 109	-	2.14	0.57	39.94	40.98	128.24	96.28	45.26	3.95	0.01	**357.37**
LLANBADARN FAWR 110	-	19.26	77.57	133.65	203.18	233.54	131.23	88.06	6.91	2.30	**895.70**
LLANGYNFELIN 111	-	4.77	24.38	75.26	23.70	87.21	41.37	11.52	1.98	-	**270.19**
LLANFARIAN 112	-	11.36	23.81	66.49	141.71	198.54	242.13	64.60	10.37	-	**759.01**
LLANGWYRYFON 113	-	3.62	9.02	25.44	72.34	89.61	42.79	8.23	-	-	**251.05**
LLANILAR 114	-	4.94	15.93	70.87	143.19	165.35	54.56	26.74	-	-	**481.58**
LLANRHYSTUD 115	-	7.90	19.20	77.46	90.36	153.88	66.68	30.44	3.46	2.30	**451.68**
MELINDWR 116	-	13.00	31.68	77.67	100.97	188.28	73.11	33.74	-	2.30	**520.75**
PONTARFYNACH 117	-	4.94	10.18	54.42	62.70	66.07	32.46	12.76	-	-	**243.53**
TIRMYNACH 118	-	46.57	47.04	230.42	132.82	171.08	143.35	25.10	1.98	-	**798.36**
TRAWSGOED 119	-	10.37	17.09	51.57	147.88	133.97	61.33	22.22	3.46	-	**447.89**
TREFEURIG 120	-	6.74	5.18	212.20	198.98	270.67	77.03	14.41	1.48	-	**786.69**
FAENOR 121	-	4.61	29.18	62.33	84.67	386.83	176.87	69.54	4.44	-	**818.47**
YSGUBOR-Y- COED 122	-	3.29	3.26	22.83	33.08	31.67	34.23	28.80	3.95	2.30	**163.41**
LLANDDEWI BREFI 123	0.55	3.78	23.04	81.85	86.40	71.51	36.02	4.94	-	-	**308.09**
LLANGEITHO 124	-	5.28	14.40	41.91	130.85	123.11	45.29	8.62	1.98	-	**371.44**
LLEDROD 125	-	3.13	12.67	53.54	98.75	92.64	43.86	4.94	-	-	**309.53**
NANTCWNLLE 126	-	5.28	35.52	34.02	132.08	114.05	34.95	20.16	-	2.30	**378.36**
TREGARON 127	-	15.13	92.94	105.55	121.95	150.57	40.29	9.88	3.95	-	**540.26**
YSBYTY YSTWYTH 128	-	3.78	14.98	59.03	54.56	56.13	15.34	4.12	-	-	**207.94**
YSTRAD FFLUR 129	-	7.23	68.74	42.57	82.21	72.41	33.16	6.59	-	-	**312.91**
YSTRAD MEURIG 130	-	2.15	9.42	33.34	44.93	52.80	18.90	4.52	1.98	-	**168.04**
CILIAU AERON 131	-	7.90	18.83	59.02	71.10	182.54	73.45	12.76	-	2.30	**427.90**
HENFYNYW 132	-	5.60	18.43	78.77	125.91	192.19	76.32	18.11	1.98	-	**517.31**
LLANARTH 133	-	40.98	52.61	91.73	177.75	250.14	109.12	25.92	1.98	-	**750.23**
LLANDYSILIOGOGO 134	-	9.55	6.53	59.25	124.68	203.67	111.96	25.92	3.95	2.30	**547.81**
LLANFAIR CLYDOGAU 135	-	4.44	21.50	29.19	87.15	112.86	39.22	14.40	-	-	**308.76**
LLANFIHANGEL YSTRAD 136	0.96	13.83	32.65	134.52	144.67	216.05	86.30	32.90	1.98	-	**663.86**
LLANGYBI 137	-	10.04	34.18	37.29	62.46	83.88	39.93	10.29	5.43	-	**283.50**
LLANLLWCHAIARN 138	-	11.36	17.67	86.25	78.76	185.87	94.13	16.87	1.98	-	**492.89**
LLANSANTFFRAED 139	0.41	36.54	35.15	101.60	186.64	187.08	60.27	8.64	1.48	-	**617.81**
LLANWENOG 140	-	8.56	43.78	92.18	154.54	188.59	67.76	27.98	1.96	-	**585.35**
LLANWNNEN 141	-	4.94	12.87	39.74	32.09	76.33	42.79	4.93	-	-	**213.69**
DYFFRYN ARTH 142	-	11.18	21.89	76.37	135.04	224.79	91.64	7.82	1.98	4.61	**575.32**
ABERPORTH 143	0.41	25.18	154.75	192.24	194.54	375.96	131.23	52.25	-	2.32	**1,128.88**
BEULAH 144	-	13.00	43.20	75.71	152.08	375.66	159.04	37.45	7.40	6.92	**870.46**
LLANDYFRIOG 145	-	31.27	105.22	128.16	123.69	296.31	116.96	23.87	3.45	2.30	**831.23**
LLANDYSUL 146	-	58.42	129.60	267.72	217.24	374.16	146.91	58.02	10.38	-	**1,262.45**
LLANGOEDMOR 147	-	17.45	46.28	88.67	108.38	192.81	96.28	31.27	9.86	2.30	**593.30**
LLANGRANNOG 148	-	13.82	18.04	90.63	85.92	117.98	79.88	19.75	-	2.31	**428.33**
PENBRYN 149	-	16.30	23.44	54.85	123.93	291.48	173.30	50.62	1.47	-	**735.39**
TROEDYRAUR 150	-	14.81	37.24	76.59	99.25	261.01	156.54	17.70	(0.01)	-	**663.13**
Y FERWIG 151	-	9.55	22.85	68.25	123.68	244.72	124.81	32.09	3.46	2.30	**631.71**
CYFANSWM	**2.33**	**980.44**	**3,142.49**	**5,808.47**	**6,760.92**	**9,646.50**	**4,783.39**	**1,433.93**	**163.43**	**46.09**	**32,767.99**